'CLECS' O'R CLYBIAU

Clwb Gwawr Ogwr yn cael noson hyfryd yn rhoi rhaglen am y flwyddyn at ei gilydd yn Nolton Corner, Pen-y-Bont. Yr aelodau yn edrych ymlaen at flwyddyn weithgar arall.

Clwb Gwawr Angylion Aber gyda'r arlunydd Elin Crowley

Aelodau Clwb Gwawr Llanllwni gyda phlant o'r ysgol yn cynnal gwasanaeth ym mhenwythnos preswyl Merched y Wawr

Rhai o aelodau Clwb Gwawr Llygaid y 'dydd, Caerdydd, yn dathlu yn y Cameo. Mae'r clwb wedi ei sefydlu ers deng mlynedd bellach ac yn mynd o nerth i nerth. Mae rhai o'r aelodau wedi bod yno ers y cychwyn un. Fe gafodd y clwb ei sefydlu yn y Cameo ar ôl ymweliad yr Eisteddfod â Chaerdydd yn 2008. Wedi'r brifwyl eleni y gobaith ydi y bydd y clwb yn dal i dyfu.

Clwb Gwawr Bro Tysul/Ar ôl y gwaith caled nôl ym mis Ebrill cafodd Meinir Davies y cyfle o cyflwyno siec o £1,800 i'r Peony Suite yn Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli. Dyma Dr Anita Huws yn derbyn y siec ar ran Mr Simon Holt a'i dîm. Fe fydd y siec arall yn cael ei chyflwyno yn fuan o £1,800 i Gangen Cancr Llandysul.

Clwb Genod Llan, Llandwrog, yn cael pizza a pheint yng Ngallt y Glyn ar ôl taith gerdded o amgylch Llyn Padarn ar hyd y trac trên. Pryd a diod haeddiannol!